

# Canllaw Athrawon ADEILADU RHITHWIR

Mae'r adnodd digidol yma wedi ei osod ar ffurf tŷ gyda'r pedair crefft  wedi'u hamlygu mewn pedwar lliw er mwyn nodi a lleoli pa sgiliau crefft sy'n berthnasol wrth adeiladu tŷ.





Mae modd i ddefnyddwyr allu ei defnyddio ar bob math o system gyfrifiadurol / dyfais - yn cynnwys cyfrifiaduron, gliniaduron, iPads, dyfeisiadau Android a ffonau clyfar.


Mae'r adnodd yn nodi'r sgiliau crefft a'r derminoleg berthnasol a ddefnyddir wrth adeiladu tŷ ac yn lleoli'n ddigidol yr adran o'r tŷ ble defnyddir y sgiliau sef ***adeiladu sylfeini a waliau, plastro, gwaith saer a pheintio ac addurno.***





Gellir dewis adran o fewn y tŷ, bydd yn ei amlygu, a trwy ei ddewis mae'n agor y tudalen tiwtorialau ar gyfer y categori perthnasol (e.e. Adeiladu sylfaeni a waliau).




Ar gyfer pob maes crefft a nodwyd drwy'r tŷ fe fydd pum tiwtorial wedi'u hanimeiddio, gyda sylwebaeth, yn nodi'r derminoleg gywir i'w defnyddio wrth gwblhau'r sgiliau crefft allweddol a arddangosir.




Mae'r sesiynau tiwtorial animeiddiedig byr a'r gweithgareddau'n cyfrannu at y nod cyffredinol o adeiladu neu adnewyddu adeilad. Bydd sesiynau tiwtorial ar yr un fformat â DVD h.y. gallu oedi, stopio, symud ymlaen, symud yn ôl.




Dangos ffurf adeiladu/insiwleiddio







Symud o un clip tiwtorial i un arall









Dewis gweithgaredd – cwis, cwblhau brawddeg neu ddatganiad ac yn y blaen.

Gweithgareddau yn cynnwys agweddau iechyd a diogelwch a rhifedd.




Os oes gennych unrhyw sylwadau gallir cysylltu drwy e-bost: adnoddau@cynnal.co.uk